# Ysgol Gynradd Llandegfan






2023-24

# Llawlyfr Rhieni

# GAIR O GROESO

Annwyl Riant/Warcheidwad,

Wrth gyflwyno'r llawlyfr yma "Gwybodaeth i Rieni" fe garem estyn croeso cynnes i'ch plentyn i Ysgol Llandegfan.

Ein gweledigaeth yn Ysgol Llandegfan yw darparu ysgol ble mae'r holl disgyblion, staff, Llywodraethwyr a'r gymuned ehangach yn gweithio gyda'i gilydd i gynnig amgylchedd groesawgar, ysgogol a diogel, er mwyn annog dysgu effeithiol. Amcanwn at fagu ymdeimlad o falchder yn y plentyn, yr ysgol a'r gymuned.

Caiff pob unigolyn o fewn cymuned yr ysgol ei werthfawrogi a'i barchu a rhoddwn fri a phwyslais arbennig ar ddathlu llwyddiannau. Ceisiwn wireddu hyn trwy ddarparu Cwricwlwm amrywiol, cytbwys a chyfoethog gyda digon o brofiadau dysgu diddorol, amrywiol ac adnoddau cyfredol a chyfoethog i ysgogi chwilfrydedd naturiol ym mhob plentyn, waeth beth fo'i allu, hil neu ryw. Yn ei dro bydd hyn yn paratoi'r disgyblion ar gyfer eu dyfodol fel dinasyddion lleol a byd eang. Gosodir gwreiddiau cadarn yn eu milltir sgwâr, a'u Cymreictod, teyrngarwch tuag at y gymuned leol a'u hetifeddiaeth tra ar yr un pryd yn datblygu parch at gred a diwylliannau eraill.

Rwyf eisiau i blant Ysgol Llandegfan adael yr ysgol yn ddisgyblion hyderus, yn mwynhau dysgu, wedi'u harfogi gyda sgiliau i fod yn ddysgwyr gydol oes, yn barod i wynebu sialensau a dysgu'n annibynnol, yn gallu cyd-weithio ac yn gallu cymhwyso sgiliau ymchwilio amrywiol i wahanol sefyllfaoedd.

Mae'r plant, eu haddysg, eu lles, a'u gallu i gyfrannu tuag at benderfyniadau yn ymwneud â'r ysgol yn flaenoriaeth yn Ysgol Llandegfan. Mae cyfranogiad gweithredol y plant yn eu dysgu ar hyn a ddysgir yn hanfodol a'u hawgrymiadau yn llywio newid i amgylchedd yr ysgol.
Mae'r ysgol a'r cartref yn bartneriaeth. Hoffwn i chi fel rhieni a gwarchodwyr fod yn falch o'r ysgol. Credaf y dylai'r ysgol roi'r cyfle i chi ddeall a bod yn rhan o'r broses addysgu fel y gallwch helpu eich plant y tu allan i'r ysgol.

Rwyf yn hollol argyhoeddedig fod y disgyblion yn haeddu'r cyfleoedd addysgol gorau y gallwn eu darparu ar eu cyfer.

Edrychaf ymlaen i gydweithio gyda chi, er mwyn sicrhau darpariaeth addysgol o'r ansawdd orau Rwyf yn hollol argyhoeddedig fod y disgyblion yn haeddu'r cyfleoedd addysgol gorau y gallwn i'ch plentyn. Anelwn at yr uchel fannau gyda'n gilydd,- "Quaerite Apices!" gan weld a dathlu ein holl 'blant yn tyfu'.

Er hynny nid oes modd cynnwys yr holl wybodaeth am yr ysgol yma ac fe nodir y gall rhai manylion newid rhwng amser cyhoeddi'r llawlyfr a dechrau'r flwyddyn ysgol. Fe'ch gwahoddir i drafod ei gynnwys (neu unrhyw beth nad ydyw wedi ei gynnwys) gyda mi trwy wneud trefniadau i ymweld â'r ysgol.
Yn gywir iawn,

D. A. Hood

Mr D. Hood
Pennaeth

# Llawlyfr 2023-24
# Ysgol Llandegfan


ENW A CHYFEIRIAD YR YSGOL:

**YSGOL LLANDEGFAN**
**LLANDEGFAN**
**YNYS MON**
**LL59 5UW**

RHIF FFÔN **01248 713431**

E-bost:
**6602174_pennaeth.llandegfan@hwbcymru.net**

SAFWE YSGOL: **www.ysgolllandegfan.org**


PENNAETH: **MR D. Hood**

CADEIRYDD Y LLYWODRAETHWYR : **CYNG. CARWYN JONES**

**DISGRIFIAD O'R YSGOL**

Ysgol Gynradd Sirol 3-11 yw'r ysgol hon.
Mae'n ysgol ddyddiol, ddwyieithog, gyd-addysgol.

**Ein bwriad yn Ysgol Llandegfan yw creu ysgol hapus, lle mae pawb yn gwneud eu gorau bob amser, yn mwynhau, yn frwdfrydig, yn gofalu am ei gilydd ac yn cael pleser o ddysgu.**

Mae Ysgol Llandegfan yn gwasanaethu pentref Llandegfan a'r cylch gwledig cyfagos. Ceir disgyblion hefyd sydd yn teithio o'r tu allan i ddalgylch naturiol yr ysgol.



Mae'r ysgol yn gwasanaethu cymuned eang ag iddi amrywiaeth ieithyddol a chymdeithasol. Gwneir y gorau bob amser i sicrhau bod pob disgybl yn teimlo'n rhan o deulu'r ysgol.

Agorwyd yr ysgol bresennol yn 1972 ac oddi yma gwelir golygfeydd godidog o fynyddoedd Eryri, ond mae addysg wedi ei ddarparu yn y pentref ers canrif a mwy yn yr Hen Ysgol sydd wedi ei lleoli rhyw ddau gan metr o'r ysgol bresennol.

Dyma'r unig adeilad ysgol o'i math ym Mhrydain, ac enillwyd gwobrau oherwydd y bensaerniaeth. Ceir cyfleoedd addysgu gwahanol oherwydd lefelau amrywiol yr adeilad. Bellach mae yma estyniad newydd sy'n cartrefu plant Cyfnod Sylfaen yr ysgol, Y Mudiad Ysgolion Meithrin, Y Cylch Chwarae a'r Clwb Plant ar ôl ysgol. Ceir defnydd eang o'r caeau chwarae sy'n addas i nifer o wahanol chwaraeon—yn ogystal â chorneli i arddio a hybu bywyd gwyllt, sy'n rhan annatod o ethos yr ysgol, ac sydd hefyd yn ysgol iach ac yn ysgol werdd. Gwnaiff y gymuned ehangach hefyd ddefnydd o dir yr ysgol.

Ymfalchïwn yn y ffaith bod rhieni ac ymwelwyr â'r ysgol yn cydnabod yr ymdeimlad o gyfeillgarwch a threfn sy'n bodoli yma, a'r modd y bydd disgyblion newydd yn ymgartrefu'n hapus.

Ceir awyrgylch symbylus a gweithgar yn y dosbarthiadau yn seiliedig ar gydberthynas o barch a gofal. Mae hyn yn galluogi'r disgyblion i ddatblygu hunan hyder ag agwedd bositif at ddysgu. Disgwylir safon uchel o ymddygiad ac ymroddiad ar bob achlysur. Ceir ymdeimlad da o gydweithio ac anogir pob disgybl i dderbyn a rhannu cyfrifoldebau amrywiol.

Mae yma berthynas iach ac agored rhwng pobl o wahanol gefndiroedd. Rhoddir parch i'r Gymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd yn ein chwarae ac yn ein gwaith. Dros y blynyddoedd, integreiddiwyd disgyblion yma yn llwyddiannus o wahanol gefndiroedd ieithyddol led led y byd. Rydym yn hyrwyddo ein harwyddair i'r eithaf i sicrhau 'Plant yn tyfu'



**NODAU AC AMCANION**

**NODAU**

1. Creu amgylchfyd ac awyrgylch lle gall y disgybl dyfu, datblygu ac aeddfedu i ddod yn unigolyn hyderus, yn ymwybodol o les eraill, ac yn aelod cyfrifol o'r gymdeithas.

2. Cynnig addysg o'r ansawdd uchaf posibl sydd yn adlewyrchu gofynion yr Awdurdod, y gymdeithas a'r unigolyn.

3. Galluogi pob disgybl i ddatblygu i fod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg fel y gallent gymryd rhan lawn ym mywyd cymdeithasol a diwylliannol y gymdeithas ddwyieithog.

**AMCANION**

1. Galluogi pob plentyn i ddatblygu ei botensial yn llawn drwy ennill sgiliau, gwybodaeth, dealltwriaeth ac agweddau, gan gynnwys sgiliau personol, cymdeithasol ac emosiynol, i'w alluogi i ddod yn ddinesydd dwyieithog sy'n weithredol yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn bersonol, ac yn ddysgwr gydol oes.

2. Galluogi pob plentyn i fod yn ddwyieuthog

3. Cynnig i blant gwricwlwm cynhwysol sy'n eu hysgogi i ddysgu ac i wireddu eu Potensial

4. Sefydlu cymuned ddysgu broffesiynol cadarn lle gall ymarferwyr ddatblygu a rhannu gwybodaeth broffesiynol am ddysgu ac addysgu

5. Hyrwyddo diwylliant o gynhwysiant cymdeithasol a pharch at amrywiaeth, yn arbennig drwy ddatblygu lles plant a theilwra'r dysgu i'r unigolyn.

6. Darparu cymuned ddysgu ar gyfer pawb sy'n gysylltiedig â bywyd ysgol, yn cynnwys plant a'u teuluoedd, llywodraethwyr, athrawon, staff arall yn yr ysgol ac oedolion sy'n hyfforddi i weithio yn yr ysgol.

7. Bod yn chwaraewr allweddol gyda darparwyr gwasanaethau eraill wrth gynllunio a chyflwyno gwasanaethau gwell i'r plant er mwyn gwella'u lles.



**POLISI MYNEDIAD**

Derbynnir disgyblion i'r ysgol yn unol â Pholisi Mynediad yr Awdurdod. Gellir gweld copi trwy gyrchu i wefan Cyngor Ynys Môn. Yn unol â'r polisi hwnnw, derbynnir disgyblion oed Derbyn i'r ysgol yn llawn amser yn y Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn 3oed.
Croeso i chi gysylltu â'r Pennaeth i drafod a threfnu ymweliad cyn gwneud cais i'r Awdurdod.

Yn ystod tymor yr Haf, gwahoddir rhieni disgyblion newydd i'r ysgol i siarad â'r Pennaeth ac athrawes y Dosbarth Derbyn, er mwyn rhannu gwybodaeth am drefniadaeth Y Cyfnod Sylfaen. Tua diwedd y tymor gwahoddir y plant i'r ysgol am gyfnod byr er mwyn iddynt ymgyfarwyddo â'u hamgylchedd newydd.
Teimlwn fod hyn yn lleihau eu gofid ac yn eu helpu i edrych ymlaen at ddechrau eu gyrfa yn yr ysgol.

Yn yr un modd, dilynir Polisi Mynediad yr Awdurdod i drosglwyddo disgyblion hŷn o un ysgol i'r llall. Mae'n arferol i ddisgyblion sy'n trosglwyddo i Gyfnod Allweddol 2 a hynny heb eu bod yn medru'r Gymraeg i fynychu'r Uned Iaith ym Moelfre am dymor.

Trosglwyddo i'r Uwchradd - Mae disgyblion yn gadael i fynychu'r ysgol uwchradd ar ôl Blwyddyn 6. Mae disgyblion sy'n byw o fewn y dalgylch, fel rheol, yn mynychu Ysgol David Hughes. Mae staff o'r ysgol uwchradd yn ymweld yn ystod tymor yr Haf cyn i'r disgyblion drosglwyddo ym mis Medi a mae trefniadau i'r disgyblion i fynychu am ' ddyddiau llawn' yr ysgol uwchradd o'u dewis.

Dalier sylw mai'r Awdurdod Lleol sydd yn gyfrifol am fynediadau i Ysgolion yr Awdurdod.

**POLISI IAITH**

AMCANION CYFFREDINOL

Mae Awdurdod Addysg Môn yn gweithredu polisi ddwyieithog drwy'r holl ysgolion a hefyd yn datblygu polisi dwyieithog ar gyfer sefydliadau eraill.
Yr amcan yw datblygu gallu disgyblion a myfyrwyr y sir i fod yn hyderus ddwyieithog, er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni.
Dylai holl sefydliadau addysg y sir adlewyrchu ac atgyfnerthu'r polisi iaith yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol, yn ogystal ag yn eu darpariaeth academaidd.

AMCANION PENODOL

Dosbarth Meithrin / Derbyn / Cyfnod Sylfaen

Sicrhau, trwy ddarpariaeth a threfniadaeth feithrin bwrpasol a sensitif, y rhoddir i bob plentyn sylfaen gadarn yn y Gymraeg, er mwyn eu galluogi i gyrraedd y nod o ddwyieithrwydd llawn maes o law.
Adeiladu ar y sylfeini a osodwyd i'r Gymraeg drwy addysg Y Cyfnod Sylfaen. Cadarnhau a datblygu mamiaith y plentyn o ddysgwr Cymraeg ac ymestyn gafael y plentyn o gartref Cymraeg ar y Saesneg.

Adran Iau/Cyfnod Allweddol 2

Cadarnhau a datblygu Cymraeg a Saesneg pob plentyn yn eu holl agweddau goddefol a gweithredol, er mwyn sicrhau ei fod yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu'n rhwydd ac yn hyderus yn y ddwy iaith pan fo'n trosglwyddo i'r ysgol uwchradd. (Gwneir darpariaeth arbennig ar gyfer hwyrddyfodiaid iau).

**Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Ynys Môn**

Rydym yn cydweithio gyda Chyngor Ynys Môn i hybu defnydd addysgol a chymdeithasol o'r iaith Gymraeg. Hanfod y siarter ydi annog a gwobrwyo'r ysgolion sy'n llwyddo i greu agwedd bositif tuag at yr iaith a chynyddu defnydd o'r Gymraeg ymysg y plant. Mae'n bwysig bod pobl ifanc Ynys Môn yn gallu dysgu, byw a gweithio trwy ba bynnag iaith a ddewisant, a bod ganddyn nhw'r sgiliau ieithyddol i fanteisio'n llawn ar y bywyd addysgol, cymdeithasol ac economaidd sydd gan Ynys Môn i'w gynnig

## Cwricwlwm

**Rhagair**

Pwrpas cyfundrefn addysg yw creu sefyllfaoedd a chyflenwi adnoddau fydd yn galluogi pob plentyn dyfu yn bersonoliaeth lawn, datblygu ac ymarfer ei holl ddoniau, fydd yn darparu ar ei gyfer yn ôl oedran, gallu a diddordeb, ac yn ei gymhwyso i fod yn aelod cyfrifol o gymdeithas ddwyieithog, yn aelod fydd yn gallu cyfrannu iddi a derbyn oddi wrthi, a byw mewn heddwch a brawdgarwch gyda'i gyd-ddyn.

Mae i'r datganiad cyffredinol hwn dair agwedd gyd-berthnasol:

a) galluogi pob plentyn i ddatblygu i'w lawn botensial
b) sicrhau bod pob plentyn yn cael ei gyflwyno i'r etifeddiaeth Gymreig
c) rhoi cyfle i bob plentyn ddatblygu fel aelod llawn o gymdeithas sy'n prysur newid.

**Amcanion Cyffredinol**


1. Datblygu sgiliau llafaredd, llythrennedd a rhifedd yng nghyd-destun symbylu chwilfrydedd, dychymyg a diddordeb plentyn.
2. Cynyddu gwybodaeth y plentyn a datblygu ei allu i resymu er mwyn ei gynorthwyo i addasu i fyd sy'n cyflym newid ac yn mynd yn fwy soffistigedig yn ei brosesau a'i dechnegau, yn arbennig mewn perthynas â thechnoleg hysbysiaeth.
3. Creu ym mhob plentyn yr awydd i geisio am fwy o wybodaeth a phrofiadau yn ystod ei fywyd a datblygu ei feddwl a'i synnwyr moesol ac ysbrydol.
4. Cynorthwyo'r plentyn fedru byw a gweithio gydag eraill a datblygu agweddau fydd yn ei alluogi i fod yn aelod cyfrifol o gymdeithas.
5. Datblygu yn y plentyn sensitifrwydd, gwerthfawrogiad esthetig a sgiliau hamdden.
6. Rhoi sylw arbennig i bob plentyn sydd ag anghenion arbennig, e.e. rhai eithriadol o alluog a rhai sydd dan anfanteision amrywiol.
7. Cyflwyno syniadau a chysyniadau a hynny trwy ddulliau bywiog a deinamig sy'n hawlio ymateb y disgybl.

Mae'n ofynnol i bob ysgol baratoi a datblygu cynllun cynhwysfawr, yn seiliedig ar ddogfen yr Awdurdod Addysg ac yn unol â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys manylion am y cwrs addysg a'r modd mae'n cael ei weithredu er mwyn sicrhau bod yr addysg a gyfrennir i'r disgyblion yn cyfarfod yn llawn a'r amcanion sydd yn y ddogfen.

**Noder ein bod yma yng Nghymru gyda Cwricwlwm newydd . Mae mynediad ar gael drwy ein gwefan sydd yn esbonio y cwricwlwm hyn I chi ymhellach.**

**Y CWRICWLWM**

Gweler drosolwg o’r cydrannau newydd o fewn y Cwricwlwm i Gymru. Bydd hyn yn sail datblygiad pob disgybl ar ei daith drwy;r ysgol ac nid oes mwyach cyfnodau allweddol ond datblygiad naturiol o ddulliau addysgu I gwrdd ag anghenion pob disgybl:







Mae pob maes dysgu a phrofiad wedi’i drefnu’n gyfres o ddatganiadau yr hyn sy’n bwysig sy’n blaenoriaethu’r cysyniadau pwysig y mae’n rhaid i ddysgwyr gael profiadau a meithrin dealltwriaeth a sgiliau yn eu cylch.



**PATRWM GWAITH**



Ceisir sicrhau bod yr addysg a ddarperir yn hybu datblygiad moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol pob disgybl a bod natur y cwricwlwm cyflawn yn wahaniaethol, eang a chytbwys. I ymateb i'r gofynion hyn bydd trefniant y dosbarth yn hyblyg; gwaith grŵp, unigol, parau a dosbarth cyfan, weithiau darperir gwaith ar sail oedran, neu bydd plant o ystod oedran sy'n rhychwantu mwy nag un blwyddyn ysgol yn cydweithio ar un dasg. Dysgir y plant o dan ofal un athro neu athrawes, a manteisir hefyd ar arbenigeddau staff i ddysgu rhai pynciau. Er mwyn sicrhau nag eithrir elfennau hanfodol o'r cwricwlwm cyflwynir profiadau a gweithgareddau i blant yn draws-ddisgyblaethol, mewn unedau penodol a thrwy ddilyn themau penodol dros gylch o 2 flynedd.

**FFRAMWAITH LLYTHRENNEDD A RHIFEDD**

Ymhlith blaenoriaethau'r Gweinidog Addysg a Sgiliau mae'r angen i wella safonau llythrennedd a rhifedd gan leihau effeithiau amddifadedd ar gyrhaeddiad addysgol. Mae'r Rhaglen Lythrennedd Genedlaethol a'r Rhaglen Rhifedd Genedlaethol yn gosod gweithrediadau y mae Llywodraeth Cymru wedi eu rhoi ar waith ar gyfer gwella safonau llythrennedd a rhifedd yng Nghymru. Mae fframwaith cenedlaethol statudol a phrofion cenedlaethol yn rhan annatod o'r ddwy rhaglen. Yn bennaf oll, offeryn cynllunio'r cwricwlwm yw'r FfLlRh sy'n cynorthwyo pob athro/athrawes i gynnwys llythrennedd a rhifedd yn rhan annatod o addysgu'r cwricwlwm. Nod y Fframweithiau yw i gynorthwyo pob athro/athrawes i ystyried bod ganddo/ganddi rôl bwysig o ran datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd eu dysgwyr. Mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol yn canolbwyntio ar dri maes llythrennedd a phedwar llinyn rhifedd, ac mae gwahanol elfennau o fewn y llinynnau hynny. Bydd y disgwyliadau ym mhob un o'r llinynnau yn gymorth i athrawon bennu'n fanwl gywir y cynnydd a ddisgwylir yn y sgiliau hyn mewn cyd-destun sy'n addas i'r oedran.

| **Llinynnau Llythrennedd** | **Llinynnau Rhifedd** |
|---|---|
| Llafaredd | Defnyddio ymresymu rhifyddol |
| Darllen | Defnyddio sgiliau rhif |
| Ysgrifennu | Defnyddio sgiliau mesur |
| | Defnyddio sgiliau data |

**PROFION DARLLEN A RHIFEDD STATUDOL**

Mae gwella safonau llythrennedd a rhifedd yn holl bwysig er mwyn sicrhau bod ein pobl ifanc yn datblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnyn nhw i lwyddo. Bydd y profion yn helpu athrawon ac ysgolion i nodi cryfderau a gwendidau unigolion a grwpiau o ddysgwyr. Byddant yn helpu i sicrhau bod y rhai hynny sydd angen cymorth ychwanegol arnyn nhw yn cael eu nodi a'u cynorthwyo, a byddan nhw'n ein helpu ni i ganfod os yw ein polisïau yn cael yr effaith briodol. Bydd y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol yn cael eu rhoi ar waith yn statudol. Bydd yn ofynnol i bob dysgwr o Flynyddoedd 2 i 9 sefyll y prawf darllen a'r prawf rhifedd. Dim ond y prawf darllen Cymraeg fydd yn rhaid i'r dysgwyr ym Mlynyddoedd 2 a 3, sy'n dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, ei sefyll. Fodd bynnag, caiff ysgolion ddewis rhoi prawf i ddysgwyr Blwyddyn 2 a 3 yn Saesneg hefyd, os ydyn nhw'n dymuno. O Flwyddyn 4 ymlaen, bydd dysgwyr sy'n dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn sefyll profion Cymraeg a Saesneg. Bydd rhieni yn derbyn adroddiad am gyrhaeddiad eu plant/plentyn yn y profion ar ddiwedd y flwyddyn addysgol.

**DOGFENNAU CWRICWLAIDD**

Mae dogfennau cwricwlaidd ar gael yn yr ysgol. Cysylltwch â'r pennaeth os ydych am eu gweld.

**SGILIAU AR DRAWS Y CWRICWLWM**

Mae '**Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng** Nghymru' anstatudol wedi cael ei ddatblygu er mwyn cynnig arweiniad ynghylch parhad a dilyniant mewn datblygu meddwl a TGCh i ddysgwyr 3 - 19 oed. Yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr adeiladu ar y sgiliau y maent wedi dechrau eu caffael a'u datblygu yn ystod y Cyfnod Sylfaen. Dylai'r dysgwyr barhau i gaffael, datblygu, ymarfer, cymhwyso a mireinio'r sgiliau hyn trwy dasgau grŵp a thasgau unigol mewn amrywiaeth o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Gellir gweld cynnydd yn nhermau mireinio'r sgiliau hyn a thrwy eu cymhwyso i dasgau sy'n symud o'r diriaethol i'r haniaethol; syml i'r cymhleth; personol i'r 'darlun mawr'; cyfarwydd i'r anghyfarwydd; a dibynnol i'r annibynnol a'r cyd-ddibynnol.

**Datblygu Meddwl**



Bydd y dysgwyr yn datblygu eu meddwl ar draws y cwricwlwm trwy'r prosesau **cynllunio, datblygu a myfyrio.**

**Datblygu TGCh** Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau TGCh ar draws y cwricwlwm trwy **ddarganfod, datblygu, creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau** a thrwy ddefnyddio ystod eang o offer a meddalwedd.

**DYSGU AR DRAWS Y CWRICWLWM**

Yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr adeiladu ar y profiadau a gaffaelwyd yn ystod y Cyfnod Sylfaen, a hybu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o Gymru, eu datblygiuad personol a chymdeithasol a'u lles, a'u hymwybyddiaeth o'r byd gwaith.



**Y Cwricwlwm Cymreig 7 – 14 oed**

Dylai dysgwyr 7— 14 oed gael cyfleoedd i ddatblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru.

**Addysg Bersonol a Chymdeithasol**



Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i hyrwyddo eu hiechyd a'u lles emosiynol a'u datblygiad moesol ac ysbrydol; bod yn ddinasyddion gweithgar, hybu datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang; paratoi ar gyfer dysgu gydol oes.

**Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith**

Dylai dysgwyr 11—19 oed gael cyfleoedd i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o'r maes gyrfaoedd a'r byd gwaith a sut mae eu hastudiaethau'n cyfrannu at baratoi ar gyfer bywyd gwaith.

**Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd Eang**



Mae angen i ddysgwyr ddatblygu'r sgiliau, gwybodaeth, ag weddau a'r gwerthoedd i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau yn unigol ac ar y cyd ar lefel lleol a byd-eang, a fydd yn gwella ansawdd bywyd yn y presennol heb niweidio'r blaned ar gyfer y dyfodol.

**Bwyd a Ffitrwydd** Mae Cwricwlwm 2008 yn atgyfnerthu safle addysg bwyd yn y cwricwlwm ysgol yng Nghymru'n sylweddol. Bydd sgiliau paratoi bwyd ymarferol yn orfodol yng Nghyfnod Allweddol 2.



## GWAITH CARTREF

Nid yw addysg wedi ei gyfyngu i oriau ysgol nac ychwaith o fewn muriau'r ysgol.

'Rydym yma yn Ysgol Llandegfan yn gwerthfawrogi bywydau prysur ein teuluoedd ac felly bydd tabl gwaith cartref yn cael ei yrru unwaith y tymor, gyda'r penderfyniad wedyn i rieni ar amlder gwaith cartref.



Pan ddigwydd hynny gobeithir y bydd y cartref yn cydweithredu i hybu gwaith y plant. Ambell dro bydd gweithgarwch arbennig yn gofyn am wybodaeth gan rieni, perthnasau a chymdogion neu'n gofyn am waith holi a darganfod ar ran y plant. Sylweddolir mai cyfrifoldeb y cartref yw'r plentyn yn ystod yr oriau hyn ac mai yng ngoleuni'r cyfrifoldeb hwnnw y bydd rhieni yn cytuno neu'n anghytuno i gydweithredu. Disgwylir i'r rhieni hybu ymroddiad y plant yn eu gwaith ysgol ac y byddant yn ceisio dyfnhau ymwybyddiaeth eu plant yn eu treftadaeth a'r byd o'u cwmpas yn ogystal ag yn sgiliau sylfaenol llythrennedd a rhif.

O dro i dro gall athro/athrawes ofyn i blentyn wneud gwaith ychwanegol er mwyn dileu rhyw wendid neu ganolbwyntio ar agwedd arbennig o'r gwaith. Bryd hynny gobeithir cael cydweithrediad llwyr y cartref ac anogaeth i'r plentyn gwblhau'r dasg.

## DARLLEN GARTREF

Rydym yn argyhoeddiedig fod darllen yn rhan hynod bwysig yn natblygiad addysgol plentyn. Oherwydd hyn, mae gennym gynllun Darllen Gartref lle gofynnir i rieni ddarllen gyda'u plant yn rheolaidd. Yn ystod y blynyddoedd cyntaf, llyfrau Cymraeg a ddefnyddir, ac yna'r ddwy iaith o hynny ymlaen. Wrth gwrs, cynllun gwirfoddol ydyw er lles eich plentyn chi, ac nid oes gorfodaeth arnoch i'w ddilyn. Bydd aelod o staff yn monitro llyfrau Darllen Gartref plant yn y Cyfnod Sylfaen ynrheolaidd, ac yn eu newid pan fo angen. Yn CA2, rydym yn disgwyl i'r disgyblion ddod a'u llyfrau darllen gartref eu hunain i'w newid a'u bod yn dechrau dewis llyfrau addas eu hunain.

Yn ogystal, i hybu diddordeb mewn darllen byddwn yn dosbarthu catalogau llyfrau o bryd i'w gilydd. Nid oes unrhyw bwysau arnoch i brynu.

## YMWELIADAU ADDYSGOL

Credwn fod mynd a phlant ar ymweliadau y tu allan i'r ysgol yn rhoi profiadau gwerthfawr iddynt, yn cyfoethogi eu bywydau a'u paratoi i fod yn ddinasyddion aeddfed.

Gall fod yn a) taith gerdded leol o gwmpas y pentref b) taith diwrnod mewn bws neu c) ymweliad lle bydd plant yn aros dros nos.

Yn achos b) a c) byddwn yn anfon manylion am y daith a gwybodaeth berthnasol i'r cartref gan fynnu fod yr ysgol yn cael caniatâd y rhieni cyn y caniateir i'r plentyn ymuno â'r gweithgaredd.

Lle bo elfen o gost e.e. cludiant, mynediad, ynghlwm â'r gweithgaredd gofynnir i rieni am gyfraniad gwirfoddol.




## CYSWLLT Â'R GYMUNED

Rydym yn credu bod yr ysgol yn rhan annatod o'r gymuned ac yn helpu'r plant i feithrin parch at ei thraddodiadau a'i phobl. Byddwn yn ceisio meithrin cyswllt clos gyda'r gymuned leol, trwy weithgareddau megis Yr Urdd, gwasanaethau Diolchgarwch ac eraill yn y capel neu'r eglwys lleol, cyngherddau, canu i'r henoed a.y.y.b. Yn achlysurol, bydd aelodau o'r gymuned a gwasanaethau cyhoeddus yn dod i'r ysgol i sgwrsio a chyd-weithio gyda'r plant.

**GWERSI OFFERYNNOL**

Mae athrawon teithiol yn ymweld â'r ysgol i roi gwersi chwythbrennau ac offerynnau pres i'r plant hynny a fanteisia ar y cyfle ( Cynigir i ddisgyblion o Flwyddyn 3 I 6). Cost y gwersi yw £210 am y flwyddyn. (Cyfanswm o 30 gwers  y flwyddyn)



**GWEITHGAREDDAU YCHWANEGOL /ALL-GWRICWLAIDD**

Mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau sy'n agored i holl ddisgyblion yr ysgol sydd ym marn y Pennaeth yn aeddfed ac yn barod i gymryd rhan ynddynt. Cystadleuwn yn Eisteddfod yr Urdd ac mewn cystadlaethau eraill a drefnir. Mae timau pêl-droed, criced, pêlrwyd a rygbi yn yr ysgol a chymerant ran mewn cystadlaethau a drefnir un ai yn yr ysgol neu ar ôl oriau ysgol.
Cefnogir hefyd gymdeithasau a chlybiau y mae'r plant yn perthyn iddynt y tu allan i oriau'r ysgol ac anogir y plant i ymuno â hwy.
Mae'r gweithgareddau hyn a drefnir gan yr ysgol i gyd yn amodol ar inni sicrhau cydweithrediad a chefnogaeth y rhieni. Ni all yr ysgol dderbyn cyfrifoldeb am oruchwylio plant ar derfyn sesiynau'r clybiau/cymdeithasau uchod a gofynnir i rieni a/neu warcheidwaid sicrhau eu bod yn gwneud trefniadau i hebrwng eu plant adref.
Cefnogwn weithgareddau yn y gymdeithas leol a threfnwn weithgareddau cyhoeddus. Cefnogwn amryw o fudiadau dyngarol. Trefnir gweithgareddau, yn achlysurol, i godi arian at Gronfa'r Ysgol.

**Pa weithgareddau/clybiau ychwanegol sydd ar gael yn Ysgol Llandegfan?**

| | | |
|---|---|---|
| **Pêl-droed**<br>Mae'r ysgol yn chwarae gemau cyfeillgar yn erbyn ysgolion lleol ac yn cymryd rhan yng nghystadleuaeth Cwpan y Sir. Cynhelir clwb pêl-droed yn ystod Tymor yr Hydref pob wythnos | **Rygbi**<br>Mae'r ysgol yn cynnig hyfforddiant rygbi yn ystod tymor y Gwanwyn a chwareir mewn sawl gwyl rygbi yn ystod y flwyddyn | **Nofio**<br>I'r bechgyn a'r genethod ym mlynyddoedd 0 - 6.<br>Llogir bws i gludo'r plant i bwll nofio Bangor neu Langefni. |
| **Pêl-rwyd**<br>Mae'r ysgol wedi ymuno â Chymdeithas Pêl-rwyd Cymru. Cynhelir clwb ar ôl ysgol yn ystod Tymor yr Hydref pob wythnos. Bydd yr ysgol yn cystadlu mewn sawl cystadleuaeth pêl-rwyd yn ystod y flwyddyn. | **Clwb Coginio**<br>Mae'r ysgol yn cynnig cyfres o sesiynau coginio i ddisgyblion Blwyddyn 6 yn ystod tymor yr Haf | **Clybiau Celf/Gwyddoniaeth a Chyfridauron**<br>Yn ystod tymor yr Haf  caiff disgyblion  Blynyddoedd 3, 4 a 5 gyfleon i  gymryd rhan yn y clybiau uchod mewn cylchdro o 4 wythnos. |
| **Yr Urdd**<br>Mae'r ysgol  yn gefnogol iawn o Fudiad yr Urdd. Bydd yr ysgol yn cystadlu mew sawl cystadleuaeth chwaraeon ac Eisteddfodau yn flynyddol. Cynhelir cyfarfodydd o'r Urdd pob pythefnos drwy gydol y flwyddyn | **Clwb Bocswn**<br>Mae Clwb Band/Bocswn  yn cael ei gynnal yn yr ysgol pob wythnos yn y trydydd tymor i ddisgyblion Bl 5 a 6. | **Clwb Dal i Fynd**<br>Clwb  yn  cynnig  gemau  amrywiol ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen |

**YSGOL IACH**

Ers peth amser mae'r ysgol wedi bod yn rhoi sylw i agweddau yn ymwneud ag iechyd a lles pawb sydd yn ymwneud â'r ysgol. Ym Medi 2006 derbyniwyd yr ysgol yn ffurfiol yn rhan o Gynllun Ysgol Iach Gwynedd a Môn sydd yn cael ei redeg drwy Lywodraeth y Cynulliad. Mae'r ysgol, a phawb sydd yn ymwneud â hi – yn blant, rhieni, staff, Llywodraethwyr a charedigion angen ymrwymo i nod y cynllun sef cyfrannu'n bositif tuag at sicrhau bod yr ysgol a'r amgylchfyd yn hyrwyddo iechyd yr holl gymuned.

Mae'r ysgol yn gweithio ar tua tri thema bob blwyddyn. Ac mae'r Ysgol wedi cyrraedd Cam 5. Rydym yn yawr yn gweithio tuag at y Cam Cenedlaethol.

Wrth gytuno i fod yn rhan o'r Cynllun Ysgolion Iach rydym fel ysgol wedi cytuno i,-

- Hybu cysylltiadau â'r Gymuned
- Gofalu am iechyd a lles y staff
- Annog y plant i fwyta'n iach
- Meithrin hunan-werth y disgyblion
- Sicrhau diogelwch yn yr ysgol



Creir Pwyllgor Ysgol iach yn flynyddol gan gynnwys plant o Flwyddyn 5 a 6.

**PROSIECT YSGOLION GWYRDD-ECO 'SGOLION**

<u>Wrth ymrwymo i'r prosiect ysgolion gwyrdd rydym fel ysgol wedi cytuno i,-</u>

- Leihau gwastraff
- Arbed ynni ac adnoddau naturiol
- Lleihau llygredd
- Gofalu am yr amgylchedd lleol
- Teithio'n ddoeth

Creir Pwyllgor Ysgol Werdd yn flynyddol gan gynnwys plant o flwyddyn 3 - 6.

Byddwn yn cynnal cyfarfodydd o bwyllgor yr 'Ysgolion Gwyrdd' tua unwaith bob chwe wythnos yn yr ysgol. Rydym wedi cael ein hachredu ar gyfer y wobr aur dair mlynedd yn olynnol, ac wedi ennill y Faner Werdd am y trydydd tro. Rydym wedi gwneud cryn dipyn i godi ymwybyddiaeth y plant o faterion gwyrdd- megis sefydlu sgwad sbwriel, gosod blychau ailgylchu ym mhob dosbarth, garddio, gwneud arolwg o'r ffyrdd y mae'r plant yn teithio i'r ysgol, arbed ynni a gwneud arolwg o'r cemegau sy'n cael eu defnyddio gan y gwasanaethau arlwyo a glanhau.

Yn eithaf ddiweddar gwobrwywyd Gardd Wyllt Yr Ysgol yn gyntaf gan Ymddiriedolaeth Natur Wyllt Gogledd Gymru. Mae yna bwll gwyllt, byrddau picnic, bwrdd adar a chartref cwsg y gaeaf i ddraenogod, yn ogystal â 'gwesty pryfetach' a blychau nythu, fel bod y plant yn gallu mwynhau dysgu am ryfeddodau natur mewn awyrgylch ddiogel.

Rydym hefyd yn falch iawn o'n strwythyrau helyg. Mae aelodau o'r gymuned a'r sgwad garddio o Flynyddoedd 5 & 6 wedi bod yn brysur iawn yn plannu a gofalu am ein llysiau yn ein gerddi clytwaith.

**CLWB PLANT YSGOL LLANDEGFAN**

Nod y clwb yw rhoi gofal da am bris rhesymol i blant Llandegfan.

Mae'r clwb ar agor o 3.00pm - 5.30pm yn ddyddiol, ac yn ystod gwyliau'r ysgol o 8.00am - 5.30pm rhai dyddiau'r wythnos. Mae'r clwb wedi ei gofrestru i gymryd hyd at 24 o blant ar ôl ysgol – y cyntaf i'r felin gaiff falu! Mae mwy o wybodaeth ar gael yn yr ysgol i unrhyw riant sydd â diddordeb mewn ymaelodi eu plant yn y clwb neu fe allwch gysylltu yn uniongyrchol gyda'r Clwb Plant drwy e-bostio clwbplantllandegfan@outlook.com neu cysylltu a'r rhif 07743559868.

**CYFEILLION YSGOL LLANDEGFAN**

Nod y Cyfeillion yw hyrwyddo addysg y plant drwy godi arian i brynu adnoddau, cynnal nosweithiau cymdeithasol/codi arian a dyfnhau'r berthynas rhwng staff, rhieni a phobl eraill sy'n ymwneud â'r ysgol ac yn cynorthwyo mewn ffyrdd ymarferol a chefnogol.

**'Rydym yn ddiolchgar iawn i'r Cyfeillion am eu gwaith caled, eu hymroddiad a'u haelioni.**

**YSGOL DAVID HUGHES**

Mae gennym gyswllt da iawn gyda'r Ysgol Uwchradd leol, sef Ysgol David Hughes a bydd y plant hynaf yn ymweld i wahanol weithgareddau nifer o weithiau mewn blwyddyn. Ar ddiwedd B6, bydd y plant yn cael cyfle i gael ymweliad mwy ffurfiol i'w paratoi at fis Medi. Bydd cyfle i'r rhieni gyfarfod â rhai aelodau o'r staff hefyd. Y nod yw hyrwyddo'r trosglwyddiad i bawb. Ar ddechrau B6, cewch wybodaeth am Ysgol David Hughes, a sut i wneud cais i'r AALl pe baech eisiau i'ch plentyn fynychu ysgol uwchradd wahanol.

**CREFYDD**

Nid yw'r ysgol hon yn dal cysylltiad uniongyrchol a ffurfiol ag unrhyw enwad crefyddol.

Trefnir addoliad dyddiol unai yn dorfol neu fel dosbarthiadau unigol.

Gwahoddir ymwelwyr i'r ysgol i gydaddoli â'r plant ac i arwain mewn addoliad.

Weithiau trefnir gwasanaethau arbennig ar Ddiolchgarwch a'r Nadolig, yn arferol yn addoldai lleol, pan wahoddir y rhieni, llywodraethwyr yr ysgol, ayyb. iddynt. Cesglir arian ynddynt tuag at achosion da.

Croesawir cyfleon i gyfrannu neu i ymuno mewn gwasanethau crefyddol a drefnir gan yr eglwys neu gapel yn y pentref.

Mae'r addysg grefyddol a gyflwynir yn seiliedig ar faes llafur cydnabyddedig yr Awdurdod. Gellir archwilio copi o'r maes llafur hwn yn yr ysgol.

**CYNGOR YSGOL**

Mae Ysgol Gynradd Llandegfan yn credu'n gryf mewn rhoi llais i blant yr Ysgol. Oherwydd hyn, bydd y plant yn flynyddol yn ethol eu cyfoedion i fod ar Gyngor yr Ysgol. Rydym hefyd yn rhan o gynllun llysgenhadon Comisiynydd Plant Cymru.

Bydd y cyngor yn cyfarfod yn rheolaidd, ac yn rhoi cyfle i'r disgyblion fynegi eu barn ar faterion pethnasol iddynt hwy.

**ANGHENION DYSGU YCHWNAEGOL ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL -**

**Cydlynydd ADY a Phlant sy'n Derbyn Gofal – Miss S Jones**

Nodir mewn canllawiau cenedlaethol bod un disgybl ym mhob pump a chanddo Anghenion Addysgol Arbennig yn ystod ei yrfa yn y gyfundrefn addysg. Yn y cyd-destun yma mae'r ysgol yn arddel Polisi Anghenion Arbennig sydd yn seiliedig ar ofynion deddfwriaethol a Chanllawiau Gweithredu Awdurdod Addysg Môn. Y Pennaeth sydd â'r cyfrifoldeb terfynol dros y polisi a Mr Aled Williams yw Cydlynydd Addysg Ychwanegol yr ysgol.

Rhoddir plant y mae ganddynt anghenion arbennig ar Gofrestr Anghenion Addysgol Arbennig yr ysgol. Yn ôl dwyster eu hangen fe roddir disgyblion ar ystod o gamau. Bydd y ddarpariaeth wahanol a wneir ar eu cyfer yn amrywio o gymorth yn y dosbarth, cymorth unigol neu grŵp bach tu allan i'r dosbarth, cyngor gan y Seicolegydd Addysg, cymorth arbenigol a ddarperir gan yr Awdurdod Addysg yn yr ysgol neu leoliad mewn uned ar neu oddi ar safle'r ysol. Bydd pob darpariaeth a wneir yn cael ei drafod a'i gytuno gyda rhieni cyn ei weithredu.

Ein nod fel ysgol fydd cynnig arweiniad a darpariaeth a fydd yn gweddu i anghenion eich plentyn trwy gydol ei yrfa yn yr ysgol. Os bydd unrhyw bryderon gennych ynglŷn â datblygiad eich plentyn neu weinyddiad y Polisi Anghenion Arbennig fe'ch anogir i gysylltu yn gyntaf ag athro / athrawes eich plentyn, Y Cyd-lynydd Anghenion Arbennig neu gyda'r Pennaeth.
Croeso i chi gysylltu â'r Pennaeth i weld copi o'r Polisi ADY.

**Plant ag Anghenion Corfforol**

Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i groesawu pob plentyn, sicrhau eu diogelwch, eu galluogi i gymryd rhan yn holl weithgareddau'r ysgol a chael mynediad llawn i'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Oherwydd pensaerniaeth arbennig yr ysgol nid yw trefniadaeth ar gyfer yr anabl yn dod yn rhwydd. Serch hyn, mae mynediad ramp ar gael i'r estyniad sydd yng nghefn yr ysgol. Fodd bynnag gwneir pob ymdrech i orchfygu problemau pe baent yn codi. Mae gennym Gynllun Hygyrchedd a Chynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl.

**Plant dan ofal**

Miss S Jones yw cydlynydd Amddiffyn Plan a Lles Plant sy'n gyfrifol fod plant dan ofal arbennig gyda hawl lawn a chyfartal i bob agwedd ar y cwricwlwm

**Meddygol**

O dro i dro bydd Swyddog Meddygol a Swyddog Deintyddol yr ysgol yn ymweld â'r ysgol i archwilio'r plant. Cewch wybodaeth ysgrifenedig am yr ymweliadau hyn ac mae croeso i chi ddod efo'ch plentyn

**Nyrs yr Ysgol**

Bydd nyrs yr ysgol yn ymweld â'r ysgol. Y prif reswm dros ei hymweliad yw sgrinio. Yn ystod eu harosiad yn yr ysgol bydd disgyblion yn cael cyfres eang o archwiliadau meddygol a gweithrediadau ataliol. Bydd rhain yn cynnwys profion ar y golwg, clyw a lliw, taldra a phwysau, archwiliad meddygol (detholedig) ac archwiliad deintyddol.

**Ymwybyddiaeth o gyffuriau**

O dro i dro bydd y theatr Paid â Chyffwrdd, Dweud,yn ymweld ag Ysgol Llandegfan i ddelio â'r pwnc difrifol o gyffuriau mewn dull ysgafn. Defnyddir hiwmor i alluogi ein disgyblion i wahaniaethu rhwng y cyffuriau a ddarperir iddynt gan y meddyg a chyffuriau eraill. Dysgir y ffforddd iddynt ddwued na i unrhywbeth a all achosi niwed iddynt. Mae croeso i rieni fynychu. Rydym hefyd yn gwahodd Swyddog Cyswllt yr Heddlu yn flynyddol i gynnal gweithdai ynglŷn â hyn a materion eraill.

# Trefn Dyddiol

**Mae'r sesiynau bob dydd fel a ganlyn:-**

| | | |
|---|---|---|
| **Sesiwn y bore:** | **Pawb oni bai am Dosbarth Meithrin** | **08:45—12:00** |
| **Sesiwn y prynhawn:** | **Meithrin, Derbyn , 1 a 2** | **13:00—15:05** |
| | **Bl 3,4,5 a 6** | **13:00—15:15** |

Ni ddylai'r plant gyrraedd yr ysgol cyn 8.45 a.m. (onibai eu bod yn mynd i'r Clwb Gofal/Brecwast sy'n agored o 8.00 a.m. ymlaen). Dim ond o'r amser yma ymlaen y gallwn sicrhau y bydd oedolyn ar gael pe digwyddai damwain. Os gwelwch yn dda, sicrhewch fod eich plentyn yn yr ysgol erbyn 8.55 a.m.— mae prydlondeb yn arferiad da i'w feithrin. Bydd plant sydd yn cyrraedd ar ôl amser yn cael eu marcio'n 'hwyr' ar y gofrestr. Os digwydd hyn yn rheolaidd, mae rheidrwydd arnom i gysylltu â'r rhieni.

Os bwriedwch i rywun gwahanol ddod i nôl eich plentyn, mae angen i chwi adael i ni wybod trwy alwad ffôn neu nodyn. Ni allwn ddibynnu ar air plentyn, a gall camddealltwriaeth fod yn beryglus. Bydd y plant yn gadael yr ysgol 3.05 p.m. (Cyfnod Sylfaen) ac am 3.15 p.m. (CA2).
Ni fyddwn yn gollwng yr un plentyn D, B1 na B2 heb sicrhau fod rhywun i'w gyrchu adref, neu bod trefniant wedi ei wneud ymlaen llaw gyda'r rhieni. Pe digwydd i chwi fod yn hwyr, ac yn methu cyfarfod eich plentyn ar ddiwedd y dydd gofynnwn i chi ffonio'r ysgol er mwyn i ni fedru gwneud y trefniadau angenrheidiol i sicrhau diogelwch eich plentyn. Dylai pob plentyn CA2 ddychwelyd i'r ysgol a dweud wrth athro neu athrawes os nad oes neb wedi dod i'w cyfarfod

**<u>Absenoldebau</u>**

Mae gofyn statudol i ysgolion gadw cofnod manwl o bob absenoldeb plentyn. Gofynnwn i rieni gysylltu â ni cyn 9.00 a.m. os na fydd eu plentyn yn dod i'r ysgol - i sicrhau diogelwch pob plentyn sydd yn yn ein gofal ac i ni fod yn gwybod pam fod plentyn yn absennol. Yn ogystal, gofynnwn am nodyn yn hysbysu beth yw rheswm unrhyw absenoldeb gan gynnwys ymweliadau meddygol.

Mae'n bosibl caniatáu hyd at ddeg diwrnod ysgol y flwyddyn i wyliau teuluol os oes gwir angen, er fod hyn, wrth gwrs yn amharu ar addysg eich plentyn.

Mae presenoldeb a phrydlondeb yn cael ei fonitro'n wythnosol gan ysgrifennyddes yr ysgol . Fe fyddwn yn cysylltu gyda chi os oes consyrn. Mae presenoldeb yr ysgol yn cael ei fonitro yn ogystal gan Swyddog Lles yr ysgol, sef Mrs Meinir Bolton, a fydd yn cynnig cefnogaeth ychwanegol i deuluoedd sydd angen cymorth.

**<u>Gofal Bugeiliol</u>**

Rhoddir pob plentyn yng ngofal athro/athrawes arbennig, ond ceisia'r staff gyfan ymorol am les yr holl ddisgyblion. Mae'r ysgol hon yn annog plant i fod yn hunan-ddisgybledig, yn gyfrifol ac i barchu eraill. Gofynnwn i bob rhiant, (a phle'n briodol-i blant) arwyddo cytundeb cartref-ysgol, fel ein bod yn anelu at adeiladu partneriaeth gref o'r dechrau cyntaf.

**Iechyd a Diogelwch**

Mae iechyd, diogelwch a lles pob unigolyn sydd naill ai yn weithiwr neu'n ddisgybl yn Ysgol Llandegfan o bwysigrwydd sylfaenol. Rydym yn anelu i ddarparu amgylchedd gweithiol diogel a dymunol i bawb. Mae'r corff llywodraethol a'r AALl yn gyfrifol am sicrhau iechyd a diogelwch disgyblion ac aelodau staff. Rhaid i bob ymwelydd ymweld â'r dderbynfa wrth gyrraedd yr ysgol. Mae pob drws allanol yn cael ei gloi yn ystod amser gwersi - ond yn caniatáu llwybr sydyn petai tân. Mae trefn mewn lle i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn ddiogel yn ystod y dydd. Megis :

- Ymarfer tân yn cael ei gario allan yn rheolaidd.
- Asesiadau risg cyfredol
- Mae holl offer trydanol yn cael ei brofi yn flynyddol
- Mae dŵr yr ysgol yn cael ei brofi o ran ansawdd yn rheolaidd.
- Mae cymhareb dda o oedolion i blant yn ystod amser chwarae.
- Mae ymarferwyr cymorth cyntaf ehangach ar ddylestwydd bob amser chwarae.

**Meddyginiaeth**

Ond gyda chaniatâd ysgrifenedig (ffurflen bwrpasol ar gael yn yr ysgol) y gwnaiff yr aelod o staff roddi meddyginiaeth o unrhyw fath i blentyn, a hynny ond ar ôl ymgynghoriad â'r Prifathro.
Nid yw'r plant i ddod ag unrhyw fath o feddyginiaeth (tabledi, ffisig, a.y.b.) i'r ysgol.

**Damweiniau**

Bydd yr athrawon yn delio â damweiniau bychain. Os digwyddir damwain ddifrifol, cysylltir â'r rhieni yn ddi-oed. Mae'n bwysig felly bod gan yr ysgol rif ffôn pob rhiant fel y gallwn ei ddefnyddio mewn argyfwng. Mae'r ysgol wedi mabwysiadu trefn adrodd a'r ddamweiniau i rieni drwy yrru slip gartref yn egluro y camau mae'r ysgol wedi gymryd o dan cymorth cyntaf. Fe fydd y daflen yn cael ei gyrru garter gyda'ch plentyn.

Plis cysylltwch ar unwaith gyda'r ysgol os oes newid
cyfeiriad neu rif ffôn .

**Salwch**

Os bydd eich plentyn yn absennol oherwydd salwch neu os bydd raid ymweld â'r deintydd neu'r ysbyty bydd angen i chi adael i ni wybod naill ai drwy anfon nodyn at yr athro/athrawes dosbarth neu adael i ysgrifenyddes yr ysgol wybod ar y ffôn neu drwy ebostio ar ysg2174a@ynysmon.gov.uk. Mae hyn yn ein galluogi i wneud yn siwr nad yw unrhyw absenoldeb yn cael ei gofnodi'n anghywir, ac yn bwysicach yn eich galluogi chi i'n helpu ni i gadw'ch plentyn yn ddiogel.

Os cymerir plentyn yn wael yn ystod diwrnod ysgol, byddwn yn cysylltu â chi i ddod i'w nôl. Pe digwyddai'r sefyllfa anffodus o ddamwain yn yr ysgol, a ninnau'n methu cael gafael ar y rhiant, eir â'r disgybl i'r ysbyty mewn car neu mewn ambiwlans, yng nghwmni aelod o'r staff.

## Gwybodaeth y bydd arnom ei angen

Bydd y ffurflenni a'r wybodaeth ganlynol ar gael ar fynediad i'r ysgol:

| | |
|---|---|
| **Cytundeb cartref ac ysgol**<br>Mae copi o hon ar gael yn yr atodiad i'r ddogfen hon. Mae angen i'r rhieni ei harwyddo. | **Ffurflen gwybodaeth cyswllt**<br>Mae hon yn ffurflen bwysig iawn. Ni fyddwn yn derbyn disgyblion i'r ysgol oni fyddwn yn gwybod sut i gysylltu â chi os bydd argyfwng. Os byddwch yn newid eich rhif ffôn gadewch i ni wybod ar unwaith. |
| **Ffurflen ymwybyddiaeth gyfryngol**<br>Byddwn yn tynnu lluniau a gwneud ffilmiau fideo o'n disgyblion yn yr ysgol am nifer o wahanol resymau. O ganlyniad gofynnwn i chi ddarllen a chwblhau y ffurflen Ymwybyddiaeth Gyfryngol sy'n nodi'r rhesymau dros i ni gael lluniau o'ch plentyn. | **Ffurflen ganiatau trafnidiaeth neu ymweliad ysgol**<br>Rydym yn aml yn cymryd y plant allan o dir yr ysgol i ychwanegu at eu haddysg. Ar gyfer teithiau lleol, o gwmpas y pentref, i fyny'r goedwig ayyb. ( bydd hysbysu o'r bwriad ymlaen llaw)<br>Ar gyfer unrhyw ymweliadau pellach, fe fydd gwybodaeth yn cael ei rannu mewn da bryd cyn yr ymweliad.<br>Mae pob ymweliad ysgol yn unol ag aseiad iechyd a diogelwch manwl. |
| **Ffurflen Alergeddau Bwyd/Arall**<br>O dro i dro mae gweithgareddau ble mae disgyblion yn blasu ac yn cyffwrdd pethau amrywiol. Gofynnwn am unrhyw wybodaeth ynglyn ac alergeddau i sicrhau diogewlch y disgyblion wrth wneud gweithgareddau o'r fath. | **Trefniadau Casglu Diwedd Dydd**<br>Ar ddechrau'r flwyddyn addysgol gofynnwn am restr y bobl sy'n cael caniatâd i gasglu eich plentyn/plant ar ddiwedd y diwrnod ysgol. |

### Disgyblaeth / Hyrwyddo Ymddygiad Da

Mae polisi'r ysgol ar ddisgyblaeth yn rheoli'r ffordd y disgyblir plant. Ein nod yw meithrin hunanddisgyblaeth a pharch at y gymdeithas yn gyfan yn ogystal ag at eiddo o fewn yr ysgol ac allan yn y gymdogaeth. Ceisiwn sicrhau fod rheolau'r ysgol yn syml ac yn rhesymol. Trafodir y rheolau hyn gyda'r plant a'u hannog i sylweddoli eu bod wedi eu sylfaenu ar synnwyr cyffredin ac mor rhesymol yr ydynt.
Gwneir defnydd o'r Cyngor Ysgol fel fforwm i drafod a diwygio y rheolau. Disgyblir plant yn deg a chysylltir â'r cartref pan deimlwn fod angen hynny. Dim ond ar achlysuron dwys iawn yr ystyrir eithrio plant o'r ysgol. Dilynir canllawiau sydd ym mholisi'r ysgol.
Defnyddir Amser Cylch yn yr ysgol yn aml i drafod materion yn ymwneud â disgyblaeth.
Gweithredir cyfundrefn tai o fewn yr ysgol i ysgogi ac i ddisgyblu'r plant.

Mae'r ysgol hon yn annog plant i fod yn hunan-ddisgybledig ac i barchu eraill.
Gwyddom y cawn gefnogaeth rhieni yn hyn.
Mae pedwar tŷ i'r gyfundrefn fel a ganlyn :

| | |
|---|---|
| Dwynwen | Glas |
| Deiniol | Melyn |
| Tegfan | Coch |
| Tysilio | Gwyrdd |

**Rheolau Ysgol / Camau Gweithredu**

Rydym yn gofyn i chi ein cynorthwyo gyda rhain:

1. Dilyn cyfarwyddiadau.
2. Bod yn garedig a moesgar i eraill.
3. Rhoi eich llaw i fyny cyn siarad.
4. Cadw'r dosbarth yn daclus.
5. Gwneud eich gorau bob amser.
6. Cerdded o fewn adeilad yr ysgol.

Bydd y plant sydd yn dilyn y rheolau yma yn cael eu canmol gan yr athro/athrawes. Bydd yr un rheolau'n weithredol allan ar yr iard ac yn y Neuadd Ginio.

Mae'r ysgol yn ceisio dysgu'r disgyblion i wahaniaethu rhwng ffraeo dydd i ddydd rhwng ffrindiau a chyfoedion, a bwlio. Mae bwlio yn weithred fwriadol a bygythiol sy'n gamddefnydd o bŵer. **Ni ddioddefir unrhyw fath o fwlio yn yr ysgol.** Mae canllawiau wedi'u nodi yn y Polisi Disgyblaeth ac os bydd bwlio'n digwydd yna delir â'r mater yn unol â'r canllawiau hynny.

Mae gan yr ysgol Bolisi Grym Rhesymol sydd i'w weithredu gan staff dan amgylchiadau arbennig er cynnal lefel dderbyniol o ddiogelwch.

## CYSWLLT Â'R CARTREF

Mae ar bob ysgol angen cefnogaeth rhieni. Yr ydym felly yn eich annog i ymddiddori yn addysg eich plant ac i fod yn gefn i'r ysgol yn ddyddiol ac yn ei gweithgareddau cyhoeddus. Byddwn yn gofyn i rieni a phlant, ynghyd â'r Pennaeth arwyddo Cytundeb Cartref Ysgol sydd yn nodi cyfrifoldebau a dyletswyddau'r ysgol, y rhieni a'r plentyn i sicrhau yr addysg gorau posibl a phob chwarae teg a chyfle i lwyddo i bob plentyn.

**Partneriaeth – Rôl yr Ysgol**
Bydd yr ysgol yn sicrhau fod:
*Cyngor ac arweiniad ar ddatblygiad y plant yn cael ei ddarparu i rieni.
*Datblygiad pob plentyn yn cael ei fonitro a'i drafod gyda'r rhieni yn ystod cyfarfodydd noson rhieni ac mewn adroddiad ysgrifenedig blynyddol.
*Rhieni yn cael gwybodaeth am unrhyw anhawsterau neu broblemau sy'n amlygu eu hunain, neu sy'n amharu ar ddatblygiad addysgol plentyn.
*Ethos ac awyrgylch yr ysgol yn hyrwyddo gallu'r plant i gyrraedd eu potensial.
*Gwybodaeth rheolaidd am weithgareddau ysgol yn cael eu rhannu gyda'r rhieni.
*Côd ymddygiad ac amgylchedd gofalgar wedi ei sefydlu.
*Rhaglenni Astudio yn cyd-fynd â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ac yn addas i oedran, tueddiadau a gallu pob plentyn.
**Partneriaeth – Rôl y Rhieni:**
Gobeithiwn y bydd rhieni yn ein cefnogi drwy:
*Ddeall anghenion eich plentyn tra yn yr ysgol
*Fod yn barod i gyfathrebu gyda'r ysgol a mynychu nosweithiau rhieni'n rheolaidd.
*Gymryd diddordeb yn y gwaith y mae eich plentyn yn ei wneud a chefnogi ei astudiaethau.
*Rannu pryderon am addysg, iechyd neu ymddygiad eu plentyn.
*Gefnogi côd ymddygiad yr ysgol.

Efallai y bydd adegau pan fyddwch angen cysylltu â ni i drafod plentyn - 'rydym bob amser yn falch o dderbyn galwad ffôn neu lythyr i drefnu apwyntiad cyn gynted ag y bo modd.

## ASESU / ADRODD I RIENI

Mae asesu parhaus wedi bod yn rhan naturiol a phwysig o waith athrawon cydwybodol erioed. Mae hyn yn sail i baratoi gwaith addas ar gyfer eich plentyn chwi. Bydd plant Derbyn yn cael eu hasesu yn ôl canllawiau asesu y Cyfnod Sylfaen yn ystod y tymor cyntaf.
Ar ddiwedd Tymor yr Haf, byddwch yn derbyn adroddiad ysgrifenedig ar ddatblygiad eich plentyn (o D i B6). Bydd yr adroddiad yn cynnwys :

- Sylwadau ar ddatblygiad personol eich plentyn a'r cynnydd a wnaed
- Gwybodaeth am sgoriau profion darllen/rhifedd eich plentyn
- Sylwadau gan yr athro/athrawes ar agwedd, ymddygiad a datblygiad cyffredinol
- Cofnod o bresenoldeb y plentyn yn ystod y flwyddyn.
- Argymhellion i'r plentyn a'r rhieni.
- Dyddiad ac amser i drafod yr adroddiad.
- Dyddiad agor yr ysgol ym mis Medi.
- Caiff copi o'r adroddiad ei gadw yn yr ysgol.

Cynhelir Nosweithiau Rhieni gyda apwyntiadau dwy waith y flwyddyn. Rhydd hyn gyfle i rieni drafod datblygiad eu plant gyda'r athro/athrawes ddosbarth. Cynhelir noson rieni agored yn Nhymor yr Haf yn ogystal yn dilyn dosbarthu'r adroddiad fel bod modd i rieni drafod adroddiad eu plentyn gyda'r athro/athrawes os dymunant.

**CINIO YSGOL**

Anogir pob disgybl i gymryd prydau ysgol ar ddechrau'r dosbarth Derbyn.

Mae'r bwyd a ddarperir yn arlwy cytbwys ac iach. Os oes gan eich plentyn alergedd at fathau gwahanol o fwyd dylid cynnwys y wybodaeth ar ffurflen fynediad eich plentyn neu drwy gysylltu â'r Pennaeth.

Bydd y wybodaeth yn cael ei drosglwyddo i'r gogyddes. Mae'r plant i gyd yn bwyta o dan arolygaeth yn y neuadd.

Mae bwydlen ar gael o'r ysgol sy'n nodi beth sydd yn cael ei baratoi fel cinio yn ddyddiol.

Os nad ydych am i'ch plentyn gael cinio ysgol, gall ddod a phecyn bwyd i'r ysgol.

Mae'r plant i gyd yn bwyta o dan arolygaeth yn y neuadd. Ceisiwch sicrhau bod cynnwys y bocs yn cydymffurfio i'n polisi Ysgol Iach h.y. dim diod siol, dim da-da, dim llawer o bethau melys.

**Alergedd / Anghenion Arbennig**

Petai eich plentyn angen diet arbennig, neu petai unrhyw fwyd angen cael ei osgoi, rydym yn gofyn yn garedig i chi adael i gogyddes yr ysgol, Mrs Margaret Hughes, wybod drwy lythyr. Mi fydd yn fwy na pharod i addasu'r bwydlen ar gyfer anghenion y plentyn. Gallwch wneud apwyntiad i drafod hyn ymhellach drwy gysylltu â swyddfa'r ysgol. Os yw eich plentyn yn cyrraedd yn hwyr, byddwn yn ddiolchgar petai chi yn gadael i'r swyddfa wybod os yw angen cinio.

**Costau Cinio ysgol**

| Adran | Dyddiol | Wythnosol |
|---|---|---|
| **PAWB** | Am Ddim | Am Ddim |

**Talu.**

Os gwelwch yn dda a wnewch chi sicrhau bod arian cinio yn cael ei dalu o flaen llawn a gan ddefnyddio SchoolGateway neu nodwch ar amlen:

- "Arian Cinio"
- Enw eich plentyn
- Dosbarth eich plentyn
- Y swm o arian oddi mewn

**Cinio am ddim**

Pan fydd eich plentyn yn dechrau addysg lawn amser, efallai y byddwch yn gymwys am ginio am ddim. I fod yn gymwys rhaid cael:

- Income based Jobseekers Allowance
- Income Support
- Child Tax Credits (if income less than £16,190)

Rydym yn annog pob rhiant sydd yn tybio eu bod yn gymwys i dderbyn cinio i holi yn y swyddfa budd-dal.

**Clwb Brecwast/Gofal**

Mae'r ysgol yn rhedeg clwb gofal a brecwast poblogaidd. Mae'r brecwast yn rhad ac am ddim a bydd y drysau yn agored o 8:25 hyd 8:40. Mae clwb gofal ar gael o 08:00 am gost o £1.20y dydd. Am ragor o fanylion cysylltwch â'r ysgol.

**Bwyta'n Iach**

Anogir plant i ddod a ffrwyth i'w fwyta yn ystod amser egwyl. Darperir dŵr yfed ym mhob adran ond croeso i'r plant ddod a photeli dŵr hefyd.

**Siop Ffrwyth**

Mae 'Siop Ffrwyth' yr ysgol ar agor yn ddyddiol. Caiff y siop ei rhedeg gan y dosbarthiadau.

**TREFN CWYNO**

Mae'r Awdurdod Addysg Lleol, yn unol â gofynion yr Ysgrifennydd Gwladol, dan Adran 23 o Ddeddf Diwygio Addysg 1980, wedi sefydlu trefn i ystyried cwynion am y modd mae cyrff llywodraethu'r ysgolion a'r Awdurdod Addysg yn gweithredu mewn perthynas â chwricwlwm ysgol a materion eraill cysylltiedig. Mae'r drefn hon wedi ei hamlinellu mewn dogfen bwrpasol yn y Gymraeg a Saesneg sydd ar gael yn yr ysgol.

Darperir copi'n rhad ac am ddim, yn ôl y gofyn, i unrhyw rieni sy'n dymuno gwneud cwyn dan y trefniadau hyn, a gall yr Awdurdod ddarparu copi mewn iaith heblaw'r Gymraeg â'r Saesneg os bydd hynny'n angenrheidiol. Pwysleisir, fodd bynnag, y gellir ymdrin â llawer o gwynion yn gyflym ac effeithiol drwy ystyriaeth anffurfiol yn seiliedig ar drafodaethau gyda'r Pennaeth. Hwn yw'r cam rhesymol cyntaf, a bydd y Corff Llywodraethu'n disgwyl bod y cam wedi ei gyflawni cyn cyflwyno'r gwyn yn ffurfiol mewn achosion eithriadol.

Dylid cysylltu â'r ysgol i wneud apwyntiad i drafod unrhyw gwyn gyda'r Pennaethiaid adran yn gyntaf ac yna'r Pennaeth.

**DOGFENNAU**

Mae gennych hawl os y dymunwch, i wneud cais i'r ysgol i gael golwg ar nifer o ddogfennau megis Cylchlythyrau Cynulliad Cymru, Polisiau yr Awdurdod Addysg, Polisiau a Nodau Cwricwlaidd y Corff Llywodraethu, adroddiadau Estyn ar yr ysgol, meysydd llafur a chynlluniau gwaith a'r adroddiad blynyddol i rieni.

**TYWYDD GARW**

Os bydd eira mawr / tywydd garw, byddwn yn eich hysbysu os fydd yr ysgol yn cau drwy neges testun, neu ceisiwch gysylltu â'r ysgol cyn 9.00 a.m. Os daw'n eira trwm yn ystod y dydd, byddwn yn cysylltu â chwi, neu yn sicrhau fod rhywun gartref cyn gadael unrhyw blentyn adael tir yr ysgol.

**CODI TÂL AM WEITHGAREDDAU ADDYSGOL**

Yn unol â Deddf Addysg 1988 mae gweithgareddau'r ysgol, a gynigir i ddisgyblion yn ystod oriau'r ysgol, ar gael i bawb yn ddiwahan yn ddi-dâl. Fodd bynnag, rhoddir hawl i'r Awdurdod Addysg Lleol neu'r ysgol ddethol fel y gallant godi tâl am weithgareddau ychwanegol os dymunant hynny, e.e. gwersi offerynnol, gweithgareddau cwricwlaidd.

Bydd yr ysgol, hefyd, yn gofyn am gyfraniadau gwirfoddol er budd yr ysgol neu gefnogi/rhoi cymorth i unrhyw weithgaredd a drefnir gan yr ysgol, boed yn ystod neu du allan i oriau'r ysgol. Eglurir wrth y rhieni beth yw cost gweithgaredd megis taith addysgol. Os na lwyddir codi'r swm hwnnw trwy gyfraniadau gan rieni yna, y bydd rhaid canslo'r gweithgaredd. Gweler ddiwedd y llawlyfr am grynodeb o'r polisi.

**CODI TÂL AM DDIFROD**

Os difrodir eiddo'r ysgol yn fwriadol gan blentyn yna, gall yr ysgol godi tâl ar y rhieni am y difrod hwnnw.

**IECHYD A DIOGELWCH**

Mae Iechyd a Diogelwch yn faes pwysig iawn yn yr ysgol am resymau amlwg.

Mae asesiadau risg cyson yn cael eu cynnal mewn amryw o feysydd yn yr ysgol mewn ymgais i geisio adnabod peryglon posibl.

Mae asesiadau risg yn cael eu cynnal hefyd cyn mynd ar unrhyw daith addysgol .

**CYFLEOEDD CYFARTAL**

Prif athroniaeth ac amcanion yr ysgol yw bod gonestrwydd, urddas a gwerth pob unigolyn o'r pwysigrwydd mwyaf. Ymdrechir i roi cyfle cyfartal i bob disgybl ac athro/athrawes ar bob adeg heb wahaniaethu ar sail rhyw, crefydd, lliw, iaith ac anabledd.

**GORUCHWYLIO**
Ein nod yw sicrhau diogelwch y plant a chadw safon dderbyniol o drefn a rheolaeth.
Mae'r ysgol yn gweithredu trefniadau goruchwylio plant gan yr athrawon a'r gweinyddesau yn ystod y cyfnodau isod:

- Cyn dechrau'r ysgol (8.45 – 8.55)
- Egwyl y bore
- Egwyl y prynhawn
- Diwedd y prynhawn (3.05 neu 3:15)

**a) Trefniadau Tywydd Sych**
Gweithredir y goruchwylio drwy system rota dyddiol. Bydd y staff ar ddyletswydd yn goruchwylio'r buarth drwy gydol y cyfnod. Gwneir trefniadau i gyflenwi pan fo aelod o staff yn absennol.

**b) Trefniadau Tywydd Garw**
Ar gyfnodau o dywydd garw, yr athrawon dosbarth fydd yn gyfrifol am baratoi gweithgaredd i'r plant a'r staff ar ddyletswydd i'w goruchwylio yn ystod yr egwyl.

**c) Trefniadau Amser Cinio**
Goruchwylir plant gan dair oruchwylwraig. Ar ôl i'r plant orffen bwyta, mae'r goruchwylwyr yn mynd allan gyda'r plant ac yn eu goruchwylio ar y buarth hyd amser dod i mewn. Yn ystod tywydd garw, byddant yn goruchwylio'r plant yn eu dosbarthiadau.

**GADAEL YR YSGOL**
Dylai'r rhieni ddod i gyfarfod y plant wrth giat yr Ysgol a bydd yr athrawon yn eu danfon yn ddiogel drwy y giat yma. Os digwydd i riant fod yn hwyr yn dod i nôl plentyn, bydd yr athrawes yn mynd ag ef yn ôl yn ddiogel i'r dosbarth. Gofynnir i rieni sy'n hwyr ddod i mewn i'w nôl.
Yn naturiol, nid oes hawl gan blentyn o'r Cyfnod Sylfaen i adael tir yr ysgol heb ganiatâd a heb oedolyn i'w gyrchu. Cofiwch roi gwybodaeth i ni yn yr ysgol, yn ogystal ag i'ch plentyn, os bydd unrhyw newid yn y trefniadau arferol ar gyfer codi plant o'r ysgol. Pan fydd teuluoedd yn chwalu, ac un o'r rhieni'n cael gofal dros y plant, mae'n bwysig ein bod yn cael gwybod am y trefniadau er mwyn osgoi sefyllfa annifyr.
Ni ellir gadael i blentyn fynd o'r ysgol yn gynnar oni bai fod rhiant yn dod i'w nôl neu fod cais ysgrifenedig yn cael ei dderbyn yn gofyn i ni anfon y plentyn adref ar amser penodol.
Daw diwedd i ddiwrnod ysgol yn y Cyfnod Sylfaen am 3:05 ac am 3:15 yn Cyfnod Allweddol 2.

Nid oes unrhyw blentyn i adael libart yr ysgol yn ystod amser ysgol heb gais personol gan y rhieni iddo/iddi gael gwneud hynny, neu ar gais y pennaeth.

**TYNNU LLUNIAU / Fideos**
Yn achlysurol bydd lluniau yn cael eu tynnu o'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gyda'r ysgol. Gall rhai o'r lluniau yma gael eu rhoi yn y papurau newydd, eu cynnwys mewn cyhoeddiadau neu ar safleoedd gwe'r ysgol, Cyngor Môn neu sefydliadau eraill y byddwn yn cydweithio â nhw.
Os nad ydych am i'ch plentyn gael ei chynnwys/gynnwys mewn lluniau cyffelyb, a fyddech cystal ag ysgrifennu llythyr at y pennaeth i nodi hynny. Os na dderbynnir llythyr cymerir yn ganiataol nad oes gennych wrthwynebiad.
(Ar ddechrau cyfnod eich plentyn yn yr ysgol fe ofynnir i lenwi ffurflen caniatâd tynnu lluniau sydd mewn grym tra fod eich plentyn/plant yn mynychu'r ysgol.)

**ADDYSG RHYW A PHERTHNASOEDD**

Cyflwynir addysg rhyw a pherthnasoedd fel rhan o addysg bersonol, gymdeithasol a moesol y plentyn fel bod rhywioldeb yn cael ei adnabod fel priodwedd naturiol a chyffredin i bawb gan, ar yr un pryd, sylweddoli bod iddo oblygiadau personol, cymdeithasol a moesol. Mae addysg rhyw hefyd yn rhan o'r cwricwlwm Gwyddoniaeth.

Fe ymdrinnir â'r maes mewn ffordd sensitif a synhwyrol. Nid oes gan rieni hawl i eithrio eu plant o wersi addysg yma bellach. Am wybodaeth bellach dylid cysylltu â'r Pennaeth. Gellir gweld copi o'r Polisi yn yr ysgol. Os nad yw rhieni'n fodlon i'w plant dderbyn gwybodaeth am addysg rhyw, dylid cysylltu â'r Pennaeth.

**ADDYSG GORFFOROL**

Mae'r ysgol mewn partneriaeth â'r cartref, yn gyfrifol am ddatblygiad corfforol pob plentyn, yn ogystal â'i ddatblygiad addysgol a moesol. Felly, cynhelir gwersi Addysg Gorfforol yn rheolaidd i'r Cyfnod Sylfaen a'r Adran Iau yn neuadd yr ysgol, ar y buarth neu ar y cae. Bydd plant yr Adran Iau yn manteisio ar gyfnod o nofio yn ogystal yn ystod y flwyddyn.

Ein nod yw datblygu cryfder, rheolaeth ac esthetrwydd y plant trwy eu cael i fod yn gorfforol weithgar. Byddant hefyd yn cael cyfleoedd i weithio'n annibynnol a chyd-weithio ag eraill ac i lunio a rheoli gemau eu hunain.

Yn ddibynnol ar y wers, disgwylir i'r plant wisgo dillad priodol. Golyga hyn newid o'i gwisg ysgol i drowsus cwta a chrys T ar gyfer y gampfa. Mae trowsus loncian, crys T, crys chwys, treinars neu stỳds yn addas ar gyfer gwersi tu allan. Os yw plentyn yn anghofio ei ddillad addysg gorfforol disgwylir iddo/iddi ddefnyddio dillad sbâr o'r ysgol. Gwnewch yn siŵr fod enw eich plentyn ar bob dilledyn os gwelwch yn dda. Ni chaniateir gwisgo modrwyau, clustdlysau nag oriawr mewn unrhyw wers Addysg Gorfforol.

Mae Addysg Gorfforol yn rhan bwysig o'r Cwricwlwm ac yn statudol i bob plentyn. Os oes unrhyw reswm meddygol pam na all plentyn gymryd rhan mewn gwersi Addysg Gorfforol, gofynnir yn garedig i'r rhieni hysbysu'r ysgol yn ysgrifenedig. Hysbysir pob disgybl ar ddechrau'r flwyddyn ar ba ddiwrnod y caiff gwersi Addysg Gorfforol.

Cefnogir cystadlaethau dalgylchol a sirol pêl-droed, pêl-rwyd, rygbi, athletau a chyfeiriannu. Yn ogystal cynhelir mabolgampau ysgol yn flynyddol. Cynhelir sawl Gala Nofio yn ystod y flwyddyn. Caiff pob disgybl ym Mlynyddoedd 1 i 6 gyfle yn ystod y flwyddyn addysgol i gyfres o wersi nofio, ym Mhwll Nofio Bangor neu Llangefni. Fe'ch hysbysir mewn da bryd pan fydd eich plentyn yn mynychu. Mae'r gwersi'n rhan o weithgareddau'r ysgol, ac fe ddisgwylir i bob disgybl fynychu'r gwersi. Gofynnir i'r rhieni hysbysu'r athro dosbarth drwy lythyr, os na fydd eu plentyn yn mynychu. Gofynnir yn garedig i'r rhieni gyfrannu tuag at gost cludiant.

**GWISG YSGOL**

Mae gan yr ysgol hon wisg ysgol swyddogol ac anogir chwi i ddilladu eich plant yn y canlynol:

Gellir prynu'r rhain mewn nifer o siopau lleol.

**Gwnewch yn siŵr bod enw eich plentyn ar bob un dilledyn os gwelwch yn dda.**

| ***Bechgyn*** | ***Genethod*** |
|---|---|
| • Crys/Crys polo glas golau ( gyda logo)<br>• Crys chwys glas tywyll (gwddf crwn neu wddf 'V' ) ( gyda logo)<br>• Cardigan glas tywyll<br>• Trowsus glas tywyll neu lwyd/<br>• Byrion/Siorts glas tywyll, du neu lwyd, plaen – Tymor yr Haf<br>• Esgidau du<br>• 'Rydym hefyd yn derbyn disgyblion yn gwisgo hoodies yn lliw y siwmper ysgol. | • Blows/Crys polo glas golau ( gyda logo)<br>• Crys chwys glas tywyll (gwddf crwn neu wddf 'V' ) ( gyda logo)<br>• Cardigan glas tywyll<br>• Trowsus glas tywyll neu lwyd<br>• Sgert (i'r pen-glin), ffrog pinafore neu culottes glas<br>• tywyll, du neu lwyd<br>• Ffrog 'Gingham Glas /Gwyn – Tymor yr Haf<br>• Teits du, llwyd neu las tywyll<br>• Byrion/Siorts glas tywyll, du neu lwyd, plaen – Tymor<br>• yr Haf<br>• Esgidau du<br>• 'Rydym hefyd yn derbyn disgyblion yn gwisgo hoodies yn lliw y siwmper ysgol. |

(Mae copi o bolisi gwisg ysgol ar gael o'r ysgol ar gais)

**CANLLAWIAU AMDDIFFYN PLANT**
Mae pob aelod o staff yr ysgol yn gyfrifol am ddiogelu ac amddiffyn y plant sy'n ei mynychu. Os ceir pryderon ynglŷn ag esgeulustra neu gam-drin corfforol, emosiynol neu rywiol, yna mae'n ddyletswydd ar y staff, yn unol â Threfn Diogelu Plant y Sir, i sôn am y mater wrth Gyd-gysylltydd Diogelu Plant yr ysgol.

Gall cyd-gysylltydd yr ysgol ymgynghori â chydweithwyr proffesiynol yn ogystal ag asiantaethau perthnasol megis Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol. Yn dilyn trafodaethau, efallai y bydd rhaid i gyd-gysylltydd yr Ysgol gyfeirio'r plentyn yn swyddogol i'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, yn unol â phrotocol y sir. Yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n penderfynu a oes angen gweithredu neu beidio. Oblegid natur y cyhuddiadau, ni fydd bob amser yn briodol i drafod y materion gyda'r rhieni cyn cyfeirio'r plentyn. Y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu sy'n gyfrifol am ymchwilio i gyhuddiadau. Y Pennaeth yw'r Cyd-Gysylltydd Diogelu Plant.

**CANLLAWIAU AMDDIFFYN PLANT YR YSGOL**
Fel rhan o'r gyfundrefn amddiffyn plant, mae gan bob ysgol athrawon a staff ategol yr ysgol hon ddyletswydd i adnabod arwyddion o gamdriniaeth neu esgelustod posibl a chyfeirio'u pryderon at y personau cyfrifol yn yr ysgol neu'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn syth.

Pryderu am blentyn: Y Personau Cyfrifol am Amddiffyn Plant yn Ysgol Llandegfan yw:
Mr D Hood— PENNAETH (01248 713431)

Person Cyfrifol Amddiffyn Plant : Cyngh Carwyn Jones (Cadeirydd y Llywodraethwyr)

**Arian**



ARIAN POCED / PETHAU GWERTHFAWR
Ni ddylai plant ddod ag arian i'r ysgol os nad oes wir angen hynny arnynt. Os digwydd hynny, gofynnir iddynt roi'r arian neu bethau gwerthfawr personol eraill i'r athro Dosbarth. Os yw plant yn dod ag arian i dalu am drip ayyb gofynnwn iddo gael ei roi mewn amlen seliedig gyda enw'r plentyn yn amlwg arno.

**Addysg Gorfforol**



Rhaid i'r plant wisgo'n addas ar gyfer eu gwersi yn y neuadd - trowsus cwta yn unig i'r bechgyn a throwsus cwta a chrys-T i'r genethod. Yn yr un modd, rhaid cael gwisg addas ar gyfer gwersi chwaraeon.
Y plant hynny a ddaw â nodyn oddi wrth eu rhieni neu feddyg yn unig a esgusodir o'r gwersi hyn.

**Beicio**



Mae gwahoddiad i'r plant mawr i ddod a'u beics i'r ysgol – cyn belled bod helmed diogelwch yn cael ei gwisgo. Atgoffir chi nad yw staff yr ysgol yn gyfrifol am y beiciau nac am ddiogelwch y plant ar y ffordd yn ôl nac ymlaen i'r ysgol.

**Mynd am dro**



Manteisir ar gyfleoedd i fynd a'r plant am dro, weithiau heb roi rhybudd i chi fel rhieni. Efallai bydd rhywbeth wedi codi yn y dosbarth neu am fod y tywydd yn caniatáu.

Fe fydd neges testun yn cael ei yrru os y bydd bwriad i fynd a'r plant oddi ar dir yr ysgol.

**Teganau**



Ni ddylai'r plant ddod â theganau nac eiddo gwerthfawr, arian poced a.y.y.b. i'r ysgol gan nad oes gennym adnoddau i'w gwarchod ac na allwn fod yn gyfrifol mewn unrhyw ffordd pe cânt eu malu neu eu colli. Ni chaiff plant ddod â ffonau symudol i'r ysgol.

**Cerbydau ar dir yr ysgol**




Disgwylir i rieni barcio eu ceir yn y maes parcio neu yn gwbl glir o fynedfa'r ysgol pan ddanfonant eu plant yn y bore neu wrth eu nôl ar ddiwedd y prynhawn. Ni ddylid dod a cheir i faes parcio'r staff ar unrhyw achlysur.
Ni chaniateir rhieni a phlant gerdded trwy'r giat fawr y ceir ond, yn hytrach, defnyddio'r giât ochr i gerddwyr. Pwysleisir hyn oherwydd Iechyd a Diogelwch.
Anogir rhieni i'w plant fagu annibyniaeth trwy adael iddynt gerdded eu hunain i'r ysgol o'r giât.

**Anadlyddion Asthma**



Bydd angen llenwi ffurflen asthma os oes angen i unrhyw blentyn ddefnyddio anadlydd asthma yn ystod amser ysgol.

**Fferins, Ffrwythau a Diod**



Os yw'r plant angen rhywbeth i'w fwyta rhwng prydau anogir hwy ddod â ffrwythau yn hytrach na fferins, creision a.y.y.b.
Mae croeso i'r plant ddod a photel ddŵr i'r ysgol yn ddyddiol.
Rhaid i'r plant ddod a photel blastic eu hunain a mynd a hi adref bob dydd. Ni all yr ysgol dderbyn cyfrifoldeb am lendid y poteli hyn.

Peidiwch a defnyddio gwefanau cymdeithasol i ddweud dim am yr hyn sydd yn digwydd yn yr ysgol.

**Ymweliadau Rhieni**

Croesawir rhieni ymweld â'r ysgol. Pan fo rhieni yn awyddus i ddod i gael sgwrs â'r athro/athrawes yna, disgwylir iddynt drefnu amser gyda'r Pennaeth. Disgwylir ymwelwyr â'r ysgol gysylltu â'r Pennaeth yn gyntaf cyn mynd i weld athro/athrawes.

# Staff yr Ysgol



Mr D Hood
Pennaeth



Mrs C. Lee



Miss S De Waart



Miss M. Jones



Mrs J. Owen



Miss G. Stuart

Miss Sioned Jones



Mr D. Jones Evans



Mrs P. Roberts



Mrs J. Owen



Miss Rh. Hughes



Mrs C. Williams



Mrs Rhian Jones

Miss B Evans

Miss Elen Jones

# Y CORFF LLYWODRAETHU
# THE SCHOOL GOVERNORS

| Enw/Name |
| --- |
| Cyng C Jones |
| Mrs  Patrick |
| Mrs Hogan |
| Mrs Edwards |
| Mrs Rh Thomas |
| Mrs C. Lee |
| Mrs P Roberts |
| Mr D Hood |
| Mrs W Backhouse |
| Mr G Griffiths |

**ROL LLYWODRAETHWYR YR YSGOL**

Mae rôl y llywodraethwyr yn hanfodol i ddatblygiad yr ysgol, ac yn cynorthwyo drwy eistedd fel bwrdd ymgynghorol a chyfarwyddol, Gwnant benderfyniadau ynglyˆn â sut mae'r ysgol yn cael ei gweithredu. Bydd y corff llawn yn cyfarfod o leiaf un waith bob tymor, a cheir cyfarfodydd rheolaidd o'r is bwyllgorau i drafod agweddau staffio, cyllid, addysg arbennig, cwricwlwm ac adeiladau.

**Mae llywodraethwyr yn cael eu penodi i gynorthwyo :-**

1. I benderfynu beth sydd yn cael ei ddysgu a fod disgyblion yn derbyn addysg o'r ansawdd uchaf
2. I safoni ymddygiad y plant.
3. I gyfweld a phenodi staff.
4. I benderfynu sut mae gwario'r gyllideb.

**Mae llywodraethwyr yn :-**

1. Rhieni
2. Athrawon a staff ategol yn yr ysgol.
3. Cynrychiolwyr cynghorau lleol.
4. Cynrychiolwyr y gwasanaethau masnachol.

**Mae rhiant-llywodraethwr :-**

1. Gyda phlentyn yn yr ysgol.
2. Yn cael ei ethol/hethol gan rieni'r ysgol.
3. Yn gwasanaethu fel bob llywodraethwr arall am gyfnod o 4 blynedd.

Mae Rhiant - Llywodraethwr yn allweddol ar gyfer dod â barn rhieni i'r corff cyfan, ond **gallant drafod fel unigolion. Mae ganddynt statws cyfartal a'r hawl i fwrw pleidlais.**
Byddwch chi fel rhieni yn ethol 3 Rhiant - Llywodraethwr am gyfnod o 4 blynedd.

# GWYLIAU YSGOL 22-23

## GWYLIAU YSGOL 2023-2024

**TYMOR:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Hydref 2023 | 1 Medi 2023 | - | 22 Rhagfyr 2023 |
| Gwanwyn 2024 | 8 Ionawr 2024 | - | 22 Mawrth 2024 |
| Hâf 2024 | 8 Ebrill 2024 | - | 19 Gorffennaf 2024 |

**Ysgolion yn agor i blant ar Ddydd Llun, 4 Medi 2023.**

**GWYLIAU:**

| | | |
|---|---|---|
| 30 Hydref 2023 - | 3 Tachwedd 2023 | (Hanner-Tymor) |
| 25 Rhagfyr 2023 - | 5 Ionawr 2024 | (Gwyliau'r Nadolig) |
| 12 Chwefror 2024 - | 16 Chwefror 2024 | (Hanner-Tymor) |
| 25 Mawrth 2024 - | 5 Ebrill 2024 | (Gwyliau'r Pasg) |
| 1 Mai 2024 | | (Calan Mai) |
| 27 Mai 2024 – | 31 Mai 2024 | (Hanner-Tymor) |

**Ysgol yn cau i blant am wyliau Haf ar Ddydd Gwener, 19 Gorffennaf 2024.**

<u>Nid yw dyddiadau Blwyddyn Ysgol 2024 – 2025 wedi eu cadarnhau hyd yma.</u>

Nifer o ddyddiau ymhob mis y bydd yr ysgolion ar agor:

| | |
|---|---|
| MEDI 2023 | 21 |
| HYDREF 2023 | 20 |
| TACHWEDD 2023 | 19 |
| RHAGFYR 2023 | 16 |
| IONAWR 2024 | 18 |
| CHWEFROR 2024 | 16 |
| MAWRTH 2024 | 16 |
| EBRILL 2024 | 17 |
| MAI 2024 | 17 |
| MEHEFIN 2024 | 20 |
| GORFFENNAF 2024 | 15 |
| | ---- |
| | 195 |
| | ---- |

1 Medi 2023 - Diwrnod dan Reolaeth Ysgol
5 diwrnod hyfforddiant i'w trefnu gan yr ysgol (yn cynnwys 01/09/23) yn ystod y flwyddyn.

Bydd ysgolion sy'n cau ar gyfer etholiadau, yn agor am y nifer hynny o ddyddiau ar ddiwedd Tymor yr Haf.